Polisi Chwythu'r Chwiban Athrofa Padarn Sant

ATHROFA PADARN SANT
ST PADARN'S INSTITUTE

Document Control Table

Document Title:	**Polisi Chwythu'r Chwiban Athrofa Padarn Sant**
Author(s) (name, job title and organisation):	Kathryn Delderfield
Version Number:	1
Document Status:	Wedi ei gymeradwyo gan y Corff Cynrychiolwyr
Effective Date:	Hydref 2018
Superseded Version:	
Related Documents:	Cod Ymddygiad Athrofa Padarn Sant

Document History

Version	Date	Author	Notes on Revisions

Polisi Chwythu'r Chwiban Athrofa Padarn Sant

Mae Athrofa Padarn Sant yn rhan o Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru. Os yw dysgwr yn amau fod aelod o staff Padarn Sant, ne unrhyw unigolyn sydd yn gysylltiedig a Phadarn Sant yn gwneud unrhyw beth anghyfreithlon neu anghywir mae'n bwysig fod yr honiadau yn cael eu trin yn gyflym ac yn y modd cywir. Mewn sefyllfa tebyg mi ddylai dysgwr adrodd yr amhe.uaeth drwy ddefnyddio'r broses a nodwyd ym Mholisi Chwythu'r Chwiban y Corff Cynryciolwyr a welir isod. Bydd unrhyw honiadau yn cael eu trin â sensetifrwydd, ac ni fydd dysgwyr yn cael eu trin yn llai ffafriol oherwydd eu bod wedi gwneud yr honiadau. [1]

Er gwybodaeth pennaeth adran Padarn Sant ydy'r Pennaeth, gelllir gweld ei fanylion cyswllt yma: https://www.stpadarns.ac.uk/cy/about/team/senior-leadership-team/.
Gweler fanylion cyswllt yr Ysgrifennydd Taleithiol drwy gysylltu â'r Eglwys yng Nghymru yma: https://www.churchinwales.org.uk/cy/about-us/representative-body/.
Os ydy'r honiadau yn ymwneud â materion ynghylch Diogelu yna dilynwch y cyngor at dudalen Diogelu'r Eglwys yng Nghymru ar ei gwefan:
https://www.churchinwales.org.uk/cy/safeguarding/reporting-safeguarding-concern/ .

[1] Heblaw y darganfu bod yr honiadau yn rhai ffug ac wedi eu gwneud yn faleisus.

Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru

Polisi Chwythu'r Chwiban

Fel rheol, gweithwyr cyflogedig yw'r rhai cyntaf i sylwi pan fo rhywun sy'n perthyn i neu'n gysylltiedig â Chorff y Cynrychiolwyr yn gwneud rhywbeth anghyfreithlon neu amhriodol, ac mae Corff y Cynrychiolwyr yn deall y gall fod ofn ar weithwyr cyflogedig i godi llais am y mater. Gall hyn fod oherwydd eu bod yn teimlo eu bod yn dangos diffyg teyrngarwch i'w cydweithwyr neu i Gorff y Cynrychiolwyr, neu na fydd eu pryderon yn cael eu hystyried o ddifrif, neu eu bod yn ofni y bydd hyn yn effeithio'n wael ar barhad eu cyflogaeth.

Nid yw Corff y Cynrychiolwyr yn credu ei bod yn beth da i unrhyw un sy'n gwybod am gamweithredu gadw'n dawel am y peth. Mae Corff y Cynrychiolwyr yn ystyried camweithredu yn fater difrifol iawn waeth pwy sy'n gyfrifol amdano, boed yn uwch-reolwr, staff, cyflenwyr, contractwyr neu aelodau cyffredinol yr Eglwys yng Nghymru gan gynnwys clerigion, lleygion a gwirfoddolwyr.

Er mwyn sicrhau bod gweithwyr cyflogedig yn cael eu diogelu rhag fictimeiddio neu gamau disgyblu, mae Corff y Cynrychiolwyr wedi mabwysiadu egwyddorion Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 a bydd yn diogelu gweithwyr cyflogedig sy'n rhoi gwybod am gamweithredu neu gamymddygiad yn y gweithle. Nod y polisi yw sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fod ein gweithwyr cyflogedig yn gallu rhoi gwybod i ni am unrhyw gamweithredu neu gamymddygiad sydd wedi neu sy'n debygol o ddigwydd yn eu barn nhw.

Gweler y weithdrefn y dylid ei dilyn er mwyn datgelu camweithredu yn Atodiad 1. Mae rhagor o wybodaeth am y weithdrefn, ei bwriad a'i gweithrediad ar gael yn Atodiad 2 yn y ffurflen o gwestiynau ac atebion cyffredin.

GWEITHDREFNAU AR GYFER YMDRIN AG AMHEUON A HONIADAU

Rhoi gwybod am Bryderon

Mae gweithdrefnau'n bodoli eisoes i weithwyr cyflogedig gyflwyno cwyn ynghylch cyflogaeth bersonol. Mae'r Polisi 'Chwythu'r Chwiban' ar gyfer ymdrin â phryderon mawr sydd y tu hwnt i gwmpas gweithdrefnau eraill. Maent yn cynnwys:

- ymddygiad sy'n drosedd neu'n torri'r gyfraith;
- datgeliadau ynghylch camweinyddiad cyfiawnder;
- peryglon iechyd a diogelwch yn cynnwys perygl i'r cyhoedd yn ogystal ag i weithwyr cyflogedig eraill;
- niwed i'r amgylchedd;
- defnyddio cyllid heb ganiatâd;
- twyll, llwgrwobrwyo neu lygredd posibl;
- cam-drin plant, pobl ifanc neu oedolion bregus yn gorfforol neu'n rhywiol;
- ymddygiad anfoesegol arall.

Felly gellir rhoi gwybod am unrhyw bryderon difrifol sydd gan weithwyr cyflogedig am unrhyw agwedd ar waith Corff y Cynrychiolwyr neu ymddygiad ei uwch staff, gweithwyr cyflogedig neu ymddiriedolwyr neu eraill sy'n gweithredu ar ran Corff y Cynrychiolwyr neu'r eglwys yn ehangach, o dan bolisi 'Chwythu'r Chwiban'. Gall hyn fod ynghylch rhywbeth:

- sy'n gwneud i weithwyr cyflogedig deimlo'n anghyffyrddus o ran safonau / profiad hysbys neu'r safonau y mae gweithwyr cyflogedig yn credu bod Corff y Cynrychiolwyr yn awyddus i'w cynnal;
- sydd yn erbyn Cyfansoddiad Corff y Cynrychiolwyr (yn cynnwys Rheolau Gweithdrefn Ariannol) ac amrywiol bolisïau;
- sy'n methu â bodloni safonau ymarfer sefydlog;
- sy'n gyfystyr ag ymddygiad amhriodol.

Mae Corff y Cynrychiolwyr yn cydnabod bod y penderfyniad i roi gwybod am bryder yn gallu bod yn benderfyniad anodd, yn aml oherwydd ofn y canlyniadau dilynol posibl gan y sawl sy'n gyfrifol am y camweithredu/camymddwyn. Nid yw Corff y Cynrychiolwyr

yn goddef unrhyw aflonyddu neu fictimeiddio a bydd yn cymryd camau i ddiogelu'r gweithiwr cyflogedig a hysbysodd y Corff yn ddidwyll am fater o bryder. Bydd Corff y Cynrychiolwyr yn gwarantu ymhellach na fydd enw'r achwynydd yn cael ei ddatgelu lle bo modd.

Mae gan Gorff y Cynrychiolwyr nifer o drefniadau adrodd ar gyfer ei weithwyr cyflogedig:

- Os yw gweithiwr cyflogedig yn darganfod camymddygiad a thwyll/llygredd posibl, dylai roi gwybod i'r rheolwr llinell ar unwaith. Dylai'r rheolwr llinell ddarganfod cymaint â phosibl o'r manylion (trwy drafod yn unig gyda'r gweithiwr cyflogedig sydd wedi rhoi gwybod), ac yna dylai roi gwybod yn ffurfiol am yr achos i Ysgrifennydd y Dalaith.

- Os bydd gweithiwr cyflogedig yn darganfod pryderon am Ddiogelwch, dylai ddilyn y trefniadau adrodd a welir ym Mholisi Diogelu'r Eglwys yng Nghymru.

Atodiad 2

DEDDF DATGELU ER LLES Y CYHOEDD 1998

Gweithdrefn Fewnol ar gyfer Chwythu'r Chwiban

Pa fath o weithgareddau y dylid eu hadrodd trwy gyfrwng y weithdrefn hon?

Mae'n amhosibl rhoi rhestr sy'n cynnwys pob un gweithgarwch sy'n gyfystyr â chamymddwyn neu gamweithredu ond yn gyffredinol byddai Corff y Cynrychiolwyr yn disgwyl i chi roi gwybod am y materion canlynol:

- Troseddau
- Methiant i gydymffurfio ag ymrwymiadau cyfreithiol
- Camweinyddiad cyfiawnder
- Camweinyddu ariannol
- Llwgrwobrwyo
- Camau sy'n peryglu iechyd a diogelwch staff neu aelodau o'r cyhoedd
- Camddefnyddio eiddo Corff y Cynrychiolwyr
- Camau bwriadol i guddio unrhyw rai o'r uchod

Ni fydd yn glir bob tro a yw cam penodol yn perthyn i unrhyw un o'r categorïau hyn, a bydd angen i weithwyr cyflogedig benderfynu hyn eu hunain. Fodd bynnag, byddai'n well gan Gorff y Cynrychiolwyr eich bod yn rhoi gwybod am bryder yn hytrach na chadw'n dawel.

Os ydw i'n rhoi gwybod, a fydd hyn yn effeithio ar fy nghyflogaeth?

Os rhowch wybod yn ddiffuant, byddwn yn gwerthfawrogi'r datgeliad hyd yn oed pan na chaiff y pryder ei gadarnhau yn sgil ymchwiliad. Yn benodol, ni fyddwch yn wynebu unrhyw gamau disgyblu. Fodd bynnag, os ydych chi'n mynd ati i wneud adroddiad ffug maleisus, neu wneud hynny er eich budd personol, gallwch ddisgwyl wynebu camau disgyblu.

A fydd angen i mi allu profi'r camwedd cyn rhoi gwybod amdano?

Nid yw Corff y Cynrychiolwyr yn disgwyl i chi gael prawf absoliwt o unrhyw gamwedd neu gamymddygiad y byddwch yn rhoi gwybod amdanynt. Fodd bynnag bydd angen i chi allu dangos rhesymau am eich pryderon.

A fydd fy enw'n cael ei ddiogelu os byddaf yn rhoi gwybod?

Gwneir popeth posibl i guddio'ch enw os mai dyna'ch dymuniad. Fodd bynnag, gall amgylchiadau godi, e.e. os daw eich adroddiad yn destun ymchwiliad troseddol, lle bydd angen i chi ymddangos fel tyst. Os bydd hyn yn wir, trafodir y mater gyda chi cyn gynted ag y bo modd.

Sut ydw i'n rhoi gwybod?

Gallwch roi gwybod ar lafar neu ar bapur. Fel rheol byddai disgwyl i chi leisio'ch pryderon wrth eich Pennaeth Adran oni bai fod eich pryderon yn cynnwys y Pennaeth Adran, ac os felly dylech droi at Ysgrifennydd y Dalaith.

Os yw eich pryder ynghylch Ysgrifennydd y Dalaith, dylech gyfeirio'ch pryder at Gadeirydd Corff y Cynrychiolwyr.

Os yw eich pryder ynghylch Cadeirydd Corff y Cynrychiolwyr dylech gyfeirio eich pryder at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg ac Archesgob Cymru.

Os mai pryder ynghylch Diogelu sydd gennych chi, dylech ddilyn y trefniadau adrodd ym Mholisi Diogelu'r Eglwys yng Nghymru.

Oes modd i mi roi gwybod yn allanol?

Gobaith Corff y Cynrychiolwyr yw y bydd y polisi hwn yn rhoi'r sicrwydd i chi godi'r mater yn fewnol yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, gall amgylchiadau godi lle bydd y camweddau'n ddifrifol dros ben a gall fod yn briodol i chi roi gwybod am eich pryderon i gorff allanol megis yr heddlu.

Os ydych chi'n bwriadu rhoi gwybod yn allanol dylech ddeall fod yn rhaid i chi gael rheswm credadwy fod y camwedd neu'r camweithredu wedi digwydd neu yn digwydd ar y pryd a bod tystiolaeth ar gael i ategu hynny.

Sut bydd yr hyn ddyweda i yn cael ei ymchwilio?

Byddwch yn cael cydnabyddiaeth ysgrifenedig fod eich cwyn wedi ei dderbyn ymhen 5 diwrnod gwaith.

Bydd y Pennaeth Adran neu Ysgrifennydd y Dalaith, fel sy'n briodol, yn cynnal ymholiadau cychwynnol i benderfynu a oes angen ymchwiliad llawn ac yna, yn unol â natur y camwedd, bydd eich pryderon naill ai'n cael;

Eu hymchwilio'n fewnol gan Ysgrifennydd y Dalaith neu'r Pennaeth Adnoddau Dynol

- Eu cyfeirio at unigolyn allanol priodol, er enghraifft yr heddlu neu archwilwyr allanol i'w harchwilio

Yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol cewch eich hysbysu am ganlyniad yr ymholiadau cychwynnol neu'r ymchwiliad llawn ac unrhyw gamau pellach a gymerwyd.

A oes camau y gallaf eu cymryd os ydw i'n anfodlon gyda'r modd y cafodd fy mhryder ei drin?

Os ydych yn anfodlon gyda'r modd y cafodd eich pryder ei drin, gallwch ysgrifennu adroddiad pellach at Gadeirydd Corff y Cynrychiolwyr yn egluro pam eich bod yn anfodlon a bydd eich pryder yn cael ei ymchwilio unwaith eto os cred y Cadeirydd bod rheswm da dros wneud hynny. Ni ellir gwarantu y bydd eich pryder yn cael ei drin yn y modd yr ydych chi'n ei ddymuno. Fodd bynnag, caiff eich pryder driniaeth deg a phriodol.

Bydd Corff y Cynrychiolwyr yn sicrhau trwy ei Bwyllgor Pobl fod defnydd ac effeithiolrwydd y polisi hwn yn cael ei fonitro a'i werthuso yn rheolaidd.

A gaf i ofyn am gyngor annibynnol?

Os ydych chi'n ansicr a ddylech ddefnyddio'r weithdrefn hon neu os hoffech gael cyngor annibynnol ar unrhyw adeg, gallwch ffonio'r elusen annibynnol **Protect** at **020 3117 2520** i gael cyngor cyfreithiol.